

Y CYFANSODDIAD ADRAN 13 – TABL 6 CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

Mae'r Prif Weithredwr a phob Prif Swyddog gydag awdurdod i weithredu ynghylch materion gweithlu, nodir y dirprwyaethau isod ac maent yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw benderfyniadau a gedwir i'r Cyngor neu bwyllgor apwyntio penodol, neu mae darpariaeth mewn polisi.

DARPARIAETHAU CYFFREDINO

1. Bydd y Prif Weithredwr a Prif Swyddogion yn cyflawni swyddogaethau a phwerau'r Cyngor fel y nodir yma ac o fewn y Cynllun Dirprwyo canlynol yn ddarostyngedig i:-
 - 1.1 Wariant neu incwm o fewn y gyllideb refeniw a gymeradwywyd neu a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Cyngor
 - 1.2 Cydymffurfio â Pholisi'r Cyngor, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol.
 - 1.3 Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth e.e. Deddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (cynnwys cyfarpar diogelu personol ac ymarferiad), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
2. Mae'r Prif Weithredwr, neu fel cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwr, Prif Swyddog yn cael eu hawdurdodi, yn absenoldeb neu anallu Prif Swyddogion sy'n adrodd iddynt i weithredu, i arfer yr holl bwerau a ddirprwywyd o bryd i'w gilydd i'r Prif Swyddogion hynny ac eithrio lle cânt eu rhwystro yn benodol rhag gweithredu trwy gyfyngiad statud, cymhwyster proffesiynol neu lle mae trefniadau eraill wedi'u gwneud yn y ddirprwyaeth berthnasol.
3. Mae'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion yn cael eu hawdurdodi i gymryd neu awdurdodi mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Pwyllgor neu Is-Bwyllgor perthnasol, neu yn eu absenoldeb, Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol, unrhyw gamau ar unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor neu Is-bwyllgor perthnasol y maent yn eu hystyried yn ddigon o frys na all aros am gyfarfod o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor hwnnw ar yr amod y bydd camau o'r fath yn cael eu hadrodd er gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor perthnasol.
4. Mae'r Prif Weithredwr neu'r person dynodedig yn ei absenoldeb yn cael eu hawdurdodi i gymryd neu awdurdodi mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol, unrhyw gamau ar unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gweithredol y maent yn eu hystyried yn ddigon o frys na all aros am gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ar yr amod y bydd camau o'r fath yn cael eu hadrodd er gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Bwrdd Gweithredol.

5. Mae gan y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr y pŵer i:-
- 5.1 penodi staff i swyddi is na Phrif Swyddog, neu ddynodi rheolwyr gyda sgiliau perthnasol mewn recriwtio.
 - 5.2 i awdurdodi cario Gwyliau Blyneddol ymlaen o dan amgylchiadau arbennig ac Absenoldeb Arbennig mewn cydsyniad ag adran 5.4 o'r Polisi Amser i Ffwrdd o Waith a pholisïau yn ymwneud a chydbwysu bywyd a gwaith.
 - 5.3 i benderfynu ar gymhwyster y gweithwyr i dderbyn taliad mewn cydsyniad â pholisï tâl y Cyngor ac unrhyw bolisi perthnasol arall:-
 - 5.3.1 honorariwm am ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol dros dro fel disgrifiwyd yn y Polisi Cyflog a Gwobrwyon
 - 5.3.2 i awdurdodi blaendal cyflog mewn amgylchiadau eithriadol
 - 5.3.3 i benderfynu pwynt cychwyn cyflog ar gyfer penodiadau newydd, sydd yn uwch na'r pwynt cynyddol isaf, ond mewn amgylchiadau arbennig fel disgrifiwyd yn y Polisi Cyflog a Gwobrwyon
 - 5.3.4 ardeisyf cynllun adleoli ar gyfer swyddi uwch/anodd ei lenwi, mewn amgylchiadau eithriadol yn unol â pholisï.
 - 5.4 i ymestyn tâl salwch cytundebol mewn amgylchiadau eithriadol, yn unol â pholisï'r Cyngor a lle bo'r cais yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth feddygol sylweddol, ac mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth, AD a DS.
 - 5.5 i gymeradwyo cytundebau setlo, awdurdodi taliadau mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth, AD a DS ac wedi'i seilïo ar gyngor cyfreithiol.
 - 5.6 atal rhag gweithio, diswyddo gweithwyr, neu gymryd camau heblaw am ddiswyddo lle bo'n briodol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, lle bo hynny'n gymwys mewn perthynas ag:
 - Ymddygiad
 - Gallu
 - Dileu Swydd
 - Cyfyngiad cyfreithiol
 - Rhyw reswm sylweddol arall.
 - 5.7 i ddiswyddo ar sail ymddeoliad afiechyd wedi ystyri farn Meddyg Cofrestredig Annibynnol wedi'i apwyntio gan y gronfa pensiwn, sy'n cadarnhau na ellir y gweithiwr cymryd rhan mewn gwaith cyflogedig ar lefel perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth, AD a DS.

6. Y Prif Weithredwr a Prif Swyddogion i gael pŵer i arfer y cyfryw swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau y gellir eu pennu mewn Rheolau Sefydlog neu Reoliadau Ariannol.
7. Y Prif Weithredwr a Prif Swyddogion i gael pŵer i gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.
8. Y Prif Weithredwr neu ei h/enwebiad arall i gael awdurdod i ddiwygio neu awdurdodi diwygiad o'r holl strwythurau adrannol o dan lefel Prif Swyddog, mewn ymateb i anghenion rheoli, gan gynnwys pwysau gwasanaeth neu'r pwysau cyllidebol ar yr amod yr ymgynghorwyd â'r Arweinydd a Dirpwy Arweinydd ynghylch newidiadau arfaethedig, yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau yn atebol i Brif Swyddogion.
9. Y Prif Weithredwr a Prif Swyddogion i gael y pŵer mewn argyfwng, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol, i gymeradwyo presenoldeb Aelodau mewn cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd tebyg eraill at ddibenion talu lwfansau cynhaliaeth a theithio pan ystyrir y byddai hynny yn unol â pholisi'r Cyngor.
10. Mewn achosion o argyfwng, y Prif Weithredwr a Prif Swyddogion i gael y pŵer i gyflwyno cynigion am adnoddau yn unol â pholisi'r Cyngor.

PRIF WEITHREDWR

1. I benderfynu ar yr holl faterion sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor, gan gynnwys rhoi caniatâd ar gyfer defnyddio Arfbais y Cyngor ac ati.
2. Lle bo angen, fel mater o argyfwng, i fynegi barn y Cyngor mewn perthynas â llywodraeth leol a'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â hynny o fewn y polisi cyffredinol a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor, ac i weithredu arno ar yr amod y bydd camau o'r fath yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.
3. Cymryd yr holl gamau sy'n cael eu hystyried yn briodol fel mater o argyfwng neu mewn unrhyw argyfwng (fel y'i diffinnir gan y Prif Weithredwr) mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau a'r swyddogion y mae ef / hi yn ystyried y bydd yr amgylchiadau yn caniatáu, yn amodol ar gyflwyno adroddiad i'r Aelodau ar y camau a gymerwyd.
4. Rheoli'r gyllideb gefeillio trefi a gwneud trefniadau o'r fath a chymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i roi effaith i bolisïau'r Cyngor fel y'i sefydlwyd o bryd i'w gilydd.
5. I reoli Adran y Prif Weithredwr.
6. Mewn ymgynghoriad â'r Maer, i gymryd yr holl gamau yr ystyrir ef / hi (y Prif Weithredwr) yn briodol ar gyfer hyrwyddo a diogelu maeryddiaeth a delwedd y Fwrdeistref.
7. Cynrychioli barn y Cyngor wrth ymateb i ymgynghoriadau gyda'r Cyngor gan unrhyw gorff allanol.
8. Fel Swyddog Canlyniadau, i gymhwyso'r ymgodiad blynyddol y cytunwyd arno mewn perthynas â ffioedd etholiadol ar gyfer dibenion llywodraeth leol, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr mewn awdurdodau unedol eraill yng Ngogledd Cymru.
9. Penderfynu, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, y Prif Swyddog Cyllid TGCh a phob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, ar benderfyniadau sydd eu hangen yn unol â pholisïau'r Cyngor mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Cyngor o dan y rheoliadau canlynol a gynhwysir yn Rheoliadau Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol 2007 (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau):-
 - Rheoliad 12 (pŵer i gynyddu cyfanswm aelodaeth o'r aelodau gweithredol)
 - Rheoliad 13 (pŵer i ddyfarnu pensiwn ychwanegol)
 - Rheoliad 18 (ymddeoliad hyblyg)
 - Rheoliad 30 (dewis talu pensiwn yn gynnar)
10. Cymeradwyo, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Gwasanaeth, AD a SD ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol,

ymddeoliadau cynnar/colli swydd islaw lefel Prif Swyddog, sy'n unol â pholisi'r Cyngor.

- 11 Yn absenoldeb neu anallu'r Prif Weithredwr i weithredu, bydd ef / hi yn dynodi Prif Swyddog neu uwch swyddog arall i arfer y dirprwyaethau uchod a'r cyfrifoldebau swyddogaethol eraill fel y mae ef / hi yn ystyried yn briodol.

PRIF SWYDDOG ADDYSG AC YMYRRAETH GYNNAR

Dynodiad neu ddirprwyd gan y Cyngor

1. I fod y "Prif Swyddog Addysg" a benodwyd o dan Adran 532 Deddf Addysg 1996 neu unrhyw ailddeddfiad o'r ddarpariaeth honno (gydag addasiadau neu hebddynt).
2. I gael pŵer i drwyddedu cyflogi plant.

Swyddogaethau Gweithredol

I gael pŵer:-

3. i fonitro a gwerthuso darpariaeth a pherfformiad ysgolion;
4. i fonitro'r cwricwlwm ym mhob ysgol a gynhelir ac adrodd arno yn ôl yr angen;
5. i gytuno targedau wedi'i osod gan ysgolion ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion;
6. i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau sydd i'w cymryd yng ngoleuni'r adroddiad yn dilyn arolygiad o ysgol a gynhelir ble mae'r ysgol wedi'i osod mewn categori "angen gwelliant sylweddol" neu "mesurau arbennig";
7. i ymyrryd i atal methiant neu fethiant parhaus o ddisgyblaeth mewn ysgol, neu lle mae pryder am safonau rheolaeth;
8. i sicrhau bod rheoli perfformiad athrawon a Phenaethiaid yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddiadau a rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
9. i ymchwilio i gwynion a wneir o dan Adran 409 Deddf Addysg 1996;
10. i reoli a gweithredu'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
11. i drefnu apelïadau yn erbyn gwaharddiadau ac ailgyfeirio disgyblion a waharddwyd;
12. i bennu a delio â'r holl drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion gwirfoddol a reolir, a chymunedol, yn unol â pholisi'r Cyngor, gan gynnwys awdurdod i:-
 - gyhoeddi gwybodaeth i rieni am drefniadau derbyn.
 - cydymffurfio â dewis y rhieni, gyda rhai eithriadau.
 - penderfynu ar ddyraniadau disgyblion i ysgolion cynradd ac uwchradd a reolir yn wirfoddol a chymunedol, yn amodol ar hawl y rhieni i apelio;
13. i wneud trefniadau i alluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch derbyniadau;

14. i ymddangos neu wneud sylwadau ysgrifenedig ar ran yr Awdurdod mewn unrhyw apêl yn erbyn gwrthod derbyn;
15. i roi cyfarwyddiadau i dderbyn plentyn i ysgol benodol;
16. ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh, i atal hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig o dan amgylchiadau a ganiateir gan y ddeddfwriaeth;
17. i benderfynu ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â pholisi'r Cyngor o ran dileu a chodi tâl ac awdurdodi adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
18. i benderfynu ar y polisi ar gyfer grantiau gwisg ysgol, penderfynu ar geisiadau sy'n cael eu trin gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh;
19. cymeradwyo derbyn rhoddion wedi'u hymddiried at ddibenion addysg;
20. i benderfynu, lle bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r ymddiriedolwr, ar geisiadau a dderbyniwyd am gymorth ariannol o gronfeydd ymddiriedolaeth elusennol, lle mae'r Awdurdod naill ai'n ymddiriedolwr ei hun, neu lle mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu ar ran yr ymddiriedolwyr;
21. i arolygu a chynnal ysgolion at ddibenion swyddogaeth All;
22. i ymateb i newidiadau mewn niferoedd disgyblion trwy sicrhau bod gofod priodol ar gael;
23. i gynnal y defnydd ar y cyd a/neu drosglwyddo cytundebau rheoli gyda phartneriaid;
24. i awdurdodi personau mewn sefydliadau addysgol i arfer y pŵer o gael gwared ar bobl o dir yr ysgol sy'n achosi niwsans o aflonyddwch;
25. i awdurdodi swyddogion i ymddangos ar ran yr ALI mewn achosion sy'n cael eu cynnal yn Llys yr Ynadon o dan Adran 547 o Ddeddf Addysg 1996, neu unrhyw ailddeddfiad o'r ddarpariaeth honno;
26. i gyhoeddi cyfarwyddiadau i Fwrdeistref Sirol ac ysgolion gwirfoddol a reolir mewn perthynas ag iechyd a diogelwch;
27. i ddelio ag enwebiadau ar gyfer llywodraethwyr ALI, gan benodi mewn achosion lle mae un enwebiad addas yn cael ei dderbyn ar gyfer unrhyw swydd wag, neu fel arall i adrodd i'r Aelod Arweiniol perthnasol i wneud penderfyniad a phenodi;
28. i sefydlu cyrff llywodraethu dros dro;
29. i benderfynu ar gwestiynau ynglŷn â phwy i'w hystyried fel rhieni disgyblion cofrestredig;
30. i ystyried unrhyw benderfyniadau a anfonwyd ato / ati o gyfarfod rhieni blynyddol ac i ymateb yn unol â hynny;

31. i weithredu ar ran yr ALI mewn unrhyw ymgynghori a gychwynnir gan lywodraethwyr unrhyw ysgol, mewn perthynas ag amseroedd sesiynau ysgol ac os yw ef / hi yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, i'w gwneud yn ofynnol i'r llywodraethwyr gynnwys ei sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion yn adroddiad nesaf y llywodraethwyr, i'w baratoi gan y llywodraethwyr;
 32. i reoli hyfforddiant i lywodraethwyr;
 33. i ddelio â materion staffio ysgolion cymunedol a reolir yn wirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol os mai penderfyniad yr ALI ydyw (yn hytrach na'r corff llywodraethu);
 34. i benderfynu ar ddyddiadau tymor ysgol a gwyliau, gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer unrhyw ysgolion cymuned, ysgolion arbennig cymunedol neu a reolir yn wirfoddol;
 35. i benodi digon o ymarferwyr addysg a llywodraethwyr yn unol â'r trefniadau a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol, y gellid galw arnynt i wasanaethu fel aelodau ar Baneli Apêl Annibynnol yn y dyfodol; *
- *yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i weithredu, awdurdodir ei swyddog dynodedig i arfer y swyddogaeth hon.
36. i gyfansoddi a chynnal Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol;
 37. i adolygu a gwneud Offerynnau Llywodraethu ar gyfer ysgolion a gynhelir yn y Fwrdeistref Sirol, lle nad oes anghytundeb â'r Offeryn drafft;
 38. i arfer pwerau o dan y Deddfau Addysg yn unol â'r Cod Ymarfer, i nodi, asesu a threfnu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys derbyn disgyblion i ysgolion tu allan i'r sir (gan gynnwys ysgolion arbennig nad ydynt yn cael eu cynnal, ac ysgolion annibynnol sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig) a chludiant, lle bo'n briodol, yn unol â Pholisïau Cludiant y Cyngor;
 39. i ddarparu cymhorthion i'w defnyddio gan ddisgyblion ag anghenion arbennig;
 40. i awdurdodi swyddogion i gynrychioli'r Awdurdod Addysg mewn achosion triwlynys sy'n ymdrin ag anghenion addysgol arbennig;
 41. i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas ac eithrio mewn ysgol, yn unol ag Adran 319 o Ddeddf Addysg 1996;
 42. i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol neu fel arall ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, efallai ddim yn cael mynediad ati oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud;

43. i adennill y costau o ddarparu addysg ar gyfer pobl nad ydynt yn perthyn i ardal y Cyngor ei hun;
44. i arfer pwerau'r Awdurdod Addysg, ac eithrio dechrau achosion cyfreithiol, o dan Ddeddf Addysg 1996 a Deddf Plant 1989 mewn perthynas â gorchmynion presenoldeb yn yr ysgol, dim presenoldeb yn yr ysgol a gorchmynion goruchwyllo addysg;
45. i roi awdurdod ysgrifenedig i Swyddogion yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig o dan Adran 444B(4)(b) o Ddeddf Addysg 1996, o dan God Ymddygiad Lleol y Cyngor ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig;
46. i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau ieuencid statudol;
47. i roi a diddymu trwyddedau i blant o oedran ysgol gorfodol ynghylch perfformiadau plentyn yn unol â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiad) 1968 ac unrhyw addasiad statudol o hynny;
48. i oruchwyllo, gwahardd a/neu gyfyngu ar gyflogi plant o oedran ysgol gorfodol yn unol â Deddf Addysg 1996;
49. i reoli'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuencid yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;
50. i arfer y swyddogaethau hynny o'r Cyngor sy'n ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y'u diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd);
51. i dderbyn ac ymateb i unrhyw gynigion a gyhoeddir gan gyrrff llywodraethu i ffedereiddio yn rhinwedd Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010;
52. Penderfynu ar geisiadau i ymddeol yn gynnar a gyflwynir o dan Gynllun Pensiwn yr Athrawon, ac achosion brys o Aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn ysgolion a gyllidir o gyllidebau dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh, Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, gan ystyried polisiau presennol y Cyngor;
53. i fod yn gyfrifol am Addysg Gymunedol i Oedolion.

PRIF SWYDDOG AMGYLCHEDD A THECHNEGOL

Dynodiad neu ddirprwyd gan y Cyngor

1. I gael pŵer i roi trwydded ar gyfer gweithfeydd stryd yn unol â Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

Swyddogaethau Gweithredol

2. I gael pŵer i weithredu cyfrifoldebau glanhau a gwastraff a chynnal a chadw tiroedd o fewn cymalau Adran yr Amgylchedd a Thechnegol o bryd i'w gilydd, o dan y ddeddfwriaeth ganlynol fel y'i diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd.

- Deddf Sbwriel 1983
- Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Cynllunio Gwlad A Thref 1990
- Deddf Difrod Troseddol 1971
- Deddf Rheoli Llygredd 1974
- Deddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau), 1970
- Deddf Trafnidiaeth 1968
- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Llywodraeth Leol 1988
- Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Twyll 2006 (mewn perthynas â Bathodynau Glas)
- Deddfau Iechyd Cyhoeddus, 1875, 1936 a 1961

3. I gychwyn cynlluniau Garddwriaethol o fewn amcangyfrifon y Cyngor.
4. Trefnu arddangosfeydd blodau ar gyfer swyddogaethau Dinesig ac Elusenol.
5. Rheoli'r holl safleoedd rhandiroedd gan gynnwys dyrannu a chymryd camau yn erbyn tenantiaid rhandiroedd anniben.
6. I reoli pob mynwent ac amlogfa a reolir gan y Cyngor.
7. Goruchwylio a rheoli'r Gwasanaeth Cefn Gwlad a Pharciau Gwledig, yn cynnwys cynnal a chadw parciau, ardaloedd amwynder a meysydd chwarae i blant a'r holl gyfleusterau hamdden awyr agored eraill, gan gynnwys pafiliynau a mannau newid sy'n gysylltiedig â hynny.
8. I arfer pwerau'r Cyngor i ymdrin â choed peryglus yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
9. I wneud trefniadau ar gyfer casglu gwastraff domestig a masnachol a'i waredu'n ddiogel.

10. I reoli pob agwedd o Gytundeb Rheoli Gwastraff y Cyngor yn cynnwys gwneud newidiadau pan mae angen p'un ai i ymateb i gyngor gan Lywodraeth Cymru, newid statudol neu fel arall a thrafod a chytuno telerau o'r fath mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh fel yn berthnasol ac mewn achlysur newid(iadau) sylfaenol ble mae angen hysbys newid mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Arweinyddol.
11. Paratoi cynllun o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ailgylchu a darparu biniau sbwriel
12. Rhoi caniatâd i Gynghorau Cymuned ar gyfer gosod biniau sbwriel ar y briffordd.
13. Sefydlu camau gweithredu ar gyfer glanhau sbwriel a gwastraff ar y stryd, gan gynnwys cyhoeddusrwydd ar gyfer ymgyrchoedd sbwriel.
14. Cynnal y gofrestr gyhoeddus ar gyfer y prif awdurdod sbwriel.
15. Cymryd camau i reoli cerbydau a throliau wedi'u gadael, i gael gwared ar bosteri anghyfreithlon a graffiti.
16. Dosbarthu gwahanol fathau o wastraff ar gyfer casglu a gwaredu a strydoedd sydd angen eu glanhau
17. Gwahardd parcio ar y stryd i hwyluso glanhau strydoedd.
18. Rheoli a monitro safleoedd gwaredu caeedig i atal llygredd neu niwsans amgylcheddol.
19. Cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyngor mewn cysylltiad â chasglu, adennill, ailgylchu a gwaredu gwastraff, glanhau a sbwriel ar y stryd, gan gynnwys negodi telerau ar gyfer casglu gwastraff masnachol.
20. I fod yn bennaf gyfrifol yn unol â Deddf Trafnidiaeth 1968 ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw fflyd cludiant y Cyngor yn briodol, ac i ddal y Drwydded Gweithredwyr berthnasol, neu i ddynodi swyddog priodol ar gyfer diben o'r fath.
21. I arfer, ar ran y Cyngor, y pwerau a'r dyletswyddau sy'n deillio o'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â chyflwyno rhybuddion am y swyddogaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt.
22. Cymeradwyo o bryd i'w gilydd, y raddfa daliadau a argymhellwyd gan Gontractwr Casglu Gwastraff y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth casglu sbwriel masnachol, a phris taliadau a argymhellwyd gan y Contractwr Casglu Gwastraff ar gyfer gwerthu neu rentu gan y contractwr o gynwysyddion gwastraff masnachol.
23. I brofi cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni yn ogystal â gweithredu gwasanaeth MOT.
- 24(i) I awdurdodi holl Swyddogion y Cyngor neu asiantau/contractwyr fel sy'n briodol, yn ysgrifenedig, yn amodol ar y swyddogion/asiantau/contractwyr hynny wedi cael eu hyfforddi'n addas i gyflawni'r dyletswyddau awdurdodedig,

i ymgymryd â chasglu tystiolaeth, cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig a chamau perthynol gan gynnwys achosion cyfreithiol yn unol â'r ddeddfwriaeth a nodir isod (ynghyd ag unrhyw reoliadau perthynol neu ddeddfwriaeth israddol a wnaed oddi tani neu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau iddi) mewn perthynas â throseddau sbwriel, tipio anghyfreithlon, cŵn yn baeddu, graffiti, gosod posteri anghyfreithlon, ysmegu mewn man waharddedig, hysbysiadau anghyfreithlon, torri gorchmynion a wnaed yn unol â'r ddeddfwriaeth olynol:-

- Deddf Iechyd 2006 (ysmygu mewn man waharddedig)
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Iechyd 2006 (fel y'i diwygiwyd)

(ii) i gyhoeddi cyhuddiadau ysgrifenedig a Hysbysiadau Gweithdrefn Ynad Unigol mewn perthynas â throseddau o dan y deddfau canlynol (fel y'i diwygiwyd neu ail ddeddfwyd):-

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 *****

25. Cymeradwyo ceisiadau am gymorth grant o dan y Cynllun Grantiau Cymunedol Amgylcheddol mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol priodol.
26. Awdurdodi gosod contractau ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â phriffyrdd, cludiant a draenio peirianeg cyffredinol, adfer tir, adennill tir, ac adeiladu, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau.
27. Arfer y swyddogaeth o wneud Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus o dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol.
28. (i) Arfer y swyddogaeth o wneud Gorchmynion Gwro Llwybr Cyhoeddus dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol.
- (ii) Rhoi'r gorau i Orchmynion Gwro Llwybr Cyhoeddus a wnaed o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 neu Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ffurfiol, yn amodol ar yr Aelod Lleol heb unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, gyda'r pŵer i benderfynu cynigion y mae'r Aelod Lleol yn eu gwrthwynebu yn aros gyda'r Cyngor.
29. I fynd i mewn i Gytundebau Creu Llwybr Cyhoeddus o dan Adran 25 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar ran y Cyngor.
30. Arfer y swyddogaeth o benderfynu ar geisiadau am Orchmynion Addasu Map Swyddogol, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol o dan sylw (ac eithrio mewn perthynas â 'gorchmynion digwyddiad cyfreithiol' o dan Adran 53(3)(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.

31. Arfer y pŵer i awdurdodi codi camfeydd, ac ati, ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau yn unol ag Adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol o dan sylw.
32. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i gymryd camau o dan Adran 130 (amddiffyn hawliau cyhoeddus mewn perthynas â phriffyrdd) ac Adran 149 (tynnu eitemau a adnewwyd ar briffordd) o Ddeddf Priffyrdd 1980, mewn perthynas â phriffyrdd sy'n Hawliau Tramwy Lleol fel y'i diffinnir yn Adran 60(5) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
33. Penderfynu ar geisiadau unigol am fin sbwriel ychwanegol ar gyfer aelwydydd o 6 neu fwy o bobl.
34. Trefnu ar gyfer gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig dros dro o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd.
35. I ymgymryd â swyddogaethau o'r fath (sydd o fewn cwmpas Adran yr Amgylchedd a Thechnegol) fel sy'n ofynnol gan y Cyngor o dan Gytundeb Asiantaeth Cefnffyrdd ar y Cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
36. Cymeradwyo gwneud gorchmynion o dan Adran 21 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Aelodau Lleol perthnasol.
37. Arfer holl bwerau'r Cyngor o dan Ddeddf Draenio Tir 1991, gan gynnwys cyflwyno Rhybuddion dan y Ddeddf honno.
38. Gweinyddu darpariaethau o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 mewn perthynas â Strydoedd, Gwaith Stryd ac Ymgymeryd.
39. Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Lleol, i ddewis lleoliadau safleoedd bws ac i ddewis safleoedd addas ar gyfer codi llochesi bysiau, a rhoi caniatâd i Gynghorau Cymuned ar gyfer codi llochesi bysiau o fewn y briffordd o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1953.
40. Trefnu ar gyfer gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig parhaol dan y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd, ac i ystyried gwrthwynebiadau i orchmynion rheoli traffig parhaol mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol.
41. I roi caniatâd i Gynghorau Cymuned osod seddau ar y briffordd o dan adran 5 o Ddeddf Cynghorau Plwyf 1957.
42. I roi caniatâd i Swyddfa'r Post godi blychau post o fewn y briffordd, mewn ymgynghoriad ag Aelodau Lleol.
43. I roi caniatâd i godi blychau ffôn o fewn y briffordd, mewn ymgynghoriad ag Aelodau Lleol.
44. Yr holl gamau angenrheidiol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 mewn cysylltiad â gorfodi.

45. Bod yn gyfrifol am reoli'r swyddogaeth orfodi ar gyfer tramgwyddau parcio, ar y stryd ac oddi ar y stryd ac unrhyw dramgwydd arall a gwmpesir gan ddeddfwriaeth traffig y ffyrdd a rheoli traffig, ond heb gynnwys cyfrifoldeb am bennu taliadau parcio a lefelau tâl cosb.
46. Cymeradwyo ceisiadau am gadw llefydd ym meysydd parcio'r Cyngor ar gyfer digwyddiadau neu achlysuron arbennig.
47. Hefgor neu ddiwygio taliadau parcio ar gyfer hyrwyddiadau arbennig.
48. Cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddarparu meysydd parcio dros dro ychwanegol yn ôl yr angen, mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol.
49. Arfer pwerau'r Cyngor o dan Adran 15 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd, 1985 lle bo'n briodol.
50. I awdurdodi mynediad i mewn i Gytundebau o dan Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980, lle bo'n briodol.
51. Awdurdodi gwneud ceisiadau i Lys yr Ynadon i gau neu ddargyfeirio priffyrdd o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd, 1980, mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol.
52. Mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol, i gymryd yr holl gamau angenrheidiol yn dilyn ystyried gwrthwynebiadau i Orchmynion Llefydd Parcio Oddi Ar y Stryd.
53. Penderfynu ar y swm gohiriedig i dalu am gost cynnal a chadw, am gyfnod o 10 mlynedd, i gael ei godi ar ddatblygwyr sydd, fel rhan o ddatblygiad, yn creu ymyl y briffordd.
54. I gael y pŵer i awdurdodi (yn ysgrifenedig) personau i fynd ar dir yn unol â, ac at ddibenion, Adrannau 289 a 291 o Ddeddf Priffyrdd 1980.
55. I benderfynu ar geisiadau am gludiant am ddim a gynorthwyir i ysgolion a cholegau (ac eithrio ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig), yn unol â pholisïau'r Cyngor sy'n ymwneud â chludiant o'r cartref i'r ysgol.
56. I osod lefel y taliadau ar gyfer cyhoeddi caniatâd ar gyfer gwaith ar y priffyrdd a rhwystrau a materion eraill yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Taliadau Trafnidiaeth) 1998 ac i wneud cais addasiadau blynyddol dewisol i daliadau o'r fath, yn unol â chwyddiant.
57. Awdurdodi Swyddogion Adran yr Amgylchedd a Thechnegol, yn ysgrifenedig, i weithredu at ddibenion gorfodi Atodlen 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
58. Gyflwyno rhybuddion ysgrifenedig yn unol â darpariaethau Rhan II o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ar unrhyw Hyrwyddwr Gwaith neu Gontractwr a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor, i wahardd neu atal gwaith cynlluniedig ar unrhyw

ffordd o fewn y Fwrdeistref Sirol am unrhyw gyfnod o amser, lle mae gwaharddiad o'r fath yn sicrhau bod y traffig yn symud yn hwylus o fewn y Fwrdeistref Sirol.

59. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i lofnodi a chyflwyno rhybuddion, rhoi caniatâd a chymryd unrhyw gamau eraill, gan gynnwys awdurdodi erlyniadau am dramgwyddau, fel y gallai fod yn briodol o dan unrhyw statud, gan gynnwys Deddf Priffyrdd 1980 yn benodol, neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â'r Briffordd neu swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau eraill o fewn cwmpas Adran yr Amgylchedd a Chynllunio, i'r graddau y mae Hawliau Tramwy Lleol (fel y'u diffinnir gan Adran 60(5) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) yn berthnasol.
60. Goruchwyllo rheoli cyfleusterau Hamdden y Cyngor oni bai y dirprwyir yn wahanol.
61. Ymgymryd â rheolaeth gyffredinol yr holl gyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant.
62. Ymgymryd â rheolaeth gyffredinol a gweinyddiaeth o'r holl gyfleusterau dan do gan gynnwys cyfleusterau defnydd deuol.
63. Amrywio taliadau neu i gytuno ar becynnau hyrwyddo neu i gyflwyno mân daliadau newydd a gynlluniwyd i gwmpasu cost yr holl weithgareddau a chyfleusterau adrannol.
64. Cymeradwyo pob cais ar gyfer gwerthu nwyddau masnachol ar eiddo'r Cyngor a reolir gan y Prif Swyddog, oni bai bod y pŵer wedi'i ddirprwyo'n benodol fel arall.
65. Penderfynu ar geisiadau unigol am nawdd chwaraeon.
66. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i awdurdodi a sefydlu achos cyfreithiol mewn perthynas â'r materion hynny y mae gan y Prif Swyddog gyfrifoldeb gweithredol amdanynt.
67. I bennu, mewn ymgynghoriad â cheisiadau Aelodau Lleol, ar gyfer y defnydd dros dro o dir o dan reolaeth Adran yr Amgylchedd a Thechnegol am gyfnodau heb fod yn fwy na blwyddyn.
68. Cymeradwyo telerau ar gyfer adnewyddu trwyddedau i sefydliadau chwaraeon ddefnyddio tir neu gyfleusterau o fewn Adran yr Amgylchedd a Thechnegol.
69. Delio â cheisiadau am hurio adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor o fewn cwmpas Adran yr Amgylchedd a Thechnegol.
70. I lofnodi a chyflwyno ceisiadau am wybodaeth o dan Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 ynghylch unrhyw swyddogaeth o fewn cymalau'r Adran Amgylchedd a Thegnegol ond ddim i atal y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid sydd â'r un swyddogaeth.

71. Penderfynu ar geisiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn unol â swyddogaeth Corff Cymeradwyo Draeniad Cynaliadwy o dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

PRIF SWYDDOG CYLLID A TGCH

Dynodiad neu ddirprwyd gan y Cyngor

1. I weithredu fel Prif Swyddog Cyllid o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac unrhyw swyddogaethau statudol eraill a neilltuwyd i'r Swyddog Adran 151.

Swyddogaethau Gweithredol

I gael y pŵer: -

2. I benderfynu hawl i gyfleusterau morgais yn unol â Deddf Tai, 1985 (Tai Cyngor) yn unol â'r meini prawf a osodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
3. I awdurdodi datblygiadau hyd at uchafswm o lefel 6 mewn unrhyw un achos yn unol ag Adrannau 435 a 436 o Ddeddf Tai, 1985, yn unol â pholisi'r Cyngor.
4. I gyflawni'r holl ddyletswyddau a neilltuwyd i'r Prif Swyddog Cyllid gan y Rheoliadau Ariannol sy'n ymwneud â gweithrediadau dyddiol yr Adran Gyllid.
5. I ystyried a phenderfynu ceisiadau bod y Cyngor i arfer ei ddisgresiwn i ad-dalu Grantiau Adnewyddu Tai dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
6. I ddatgan y gyfradd log gyfartalog leol yn unol ag Atodlen 16 o Ddeddf Tai 1985.
7. I ddwyn achos sifil i adennill arian sy'n ddyledus i'r Cyngor.
8. Cynnal achos sifil i adennill arian sy'n ddyledus i'r Cyngor mewn ymgynghoriad â Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.
9. I lofnodi cytundebau rheoleiddio o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974 yn unol â chynlluniau a gymeradwywyd gan y Cyngor e.e. cytundebau llogi cynllun beicio.
10. I weinyddu'r holl daliadau a godir mewn perthynas â'r gwasanaethau addysg, gan gynnwys hepgor taliadau.
11. I wneud addasiadau cyllid blynyddol i Gyllidebau Ysgolion fel sy'n ofynnol yng Nghynllun Rheolaeth Leol Ysgolion ac i adrodd ar hynny i'r Bwrdd Gweithredol.
12. Gweithredu fel Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian y Cyngor at ddibenion Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2003, ac yn absenoldeb anallu'r Pennaeth Cyllid i weithredu, bydd y Rheolwr Cyfrifeg yn gweithredu fel Dirprwy Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian.
13. Ar y cyd gyda'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, i atal yr hawl i'r corff llywodraethu gael cyllideb ddirprwyedig o dan amgylchiadau a ganiateir gan y ddeddfwriaeth.

14. I benderfynu ar geisiadau am grantiau gwisg ysgol yn unol â pholisi'r Cyngor.
15. I sicrhau bod polisiâu'n cael eu cadw'n ddiogel a gwneud hawliadau o dan yswiriant y Cyngor.
16. Awdurdodi setliad yr holl hawliadau am iawndal boed gan denantiaid, gweithwyr y Cyngor neu aelodau eraill o'r cyhoedd lle mae honiadau o'r fath yn ganlyniad i ddifrod a achosir gan y Cyngor neu wasanaethau cysylltiedig, ac nid ydynt yn dod o dan yswiriant.
17. I ardystio cytundebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997.

PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU A CHWSMERIAID

Dynodiad neu ddirprwyad gan y Cyngor

1. I gyflawni rol Swyddog Monitro'r Cyngor.
2. I osod sêl a chyflawni dogfennau ar ran y Cyngor. *
3. I ddilysu Dogfennau ar gyfer Achosion Cyfreithiol.*
4. I gyd-drafod, cwblhau a gweithredu unrhyw ddogfen neu gytundeb ar ran y Cyngor, sy'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgor arall, Is-bwyllgor neu Prif Swyddog, boed a ydynt wedi'u hawdurdodi'n benodol gan benderfyniad o'r fath ai peidio.
*
5. I arfer swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â chymeradwyo adeiladau ar gyfer priodasau dan Ddeddf Priodasau 1949 a Rheoliadau Priodasau (Adeiladau Cymeradwy) 1995, a chofrestru partneriaethau sifil o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol.
6. Diwygio dogfen Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â phenderfyniadau'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu bwyllgorau ac i sicrhau cydymffurfiaid â gofynion deddfwriaethol.
7. I fod yn gyfrifol am: **
 - a) cynnal cofrestrau tir comin a lawntiau tref neu bentref;
 - b) delio â phob mater sy'n gysylltiedig â'r cofrestrau gan gynnwys ceisiadau ag eithrio ceisiadau i gofrestru lawnt tref neu bentref newydd o dan Adran 15 o Ddeddf Comin 2006; a
 - c) caniatáu ceisiadau i gofrestru lawnt tref neu bentref newydd o dan Adran 15 o Ddeddf Comin 2006

Swyddogaethau Gweithredol

8. I sefydlu a chynnal pob achos sifil, troseddol a gweinyddol, (gan gynnwys setlo hawliadau y tu allan i Lys) a gwrandawladau tribiwnlysoedd o natur led-farnwrol (ac eithrio materion a ddirprwywyd yn benodol i Swyddog arall).*
9. I gyflwyno pob Hysbysiad o dan Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref nad ydynt fel arall wedi'u dirprwyo'n benodol.*
10. Cadw cofnodion, gan gynnwys Cofnodion a Trawsgludiadau, Prydlesi, Morgeisi a gwarantau eraill.*
11. Cyhoeddi gwarantau i'r Uchel Siryf i gyflwyno meddiant o eiddo a gynhwysir mewn Gorchmynion Prynu Gorfodol wedi'u cadarnhau, lle mae'r Cyngor wedi cyflwyno hysbysiad mynediad ond lle mae'r deiliaid wedi gwrthod caniatáu meddiant i'r Cyngor.*

12. Cymryd yr holl gamau cyfreithiol priodol i sicrhau bod 'sgwatwyr' yn cael eu troi allan o eiddo Cyngor, hynny yw, unrhyw bersonau sy'n meddiannu eiddo o'r fath heb awdurdod y Cyngor ac yn groes i'w bolisiâu sy'n llywodraethu gosod yr un fath, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tai a'r Economi.*
13. Ffurio Cytundebau gyda datblygwyr ar gyfer mabwysiadu mannau amwynder ar ystadau tai preifat.*
14. I wneud cais i'r Llys am Waharddiad o dan ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd, 1990, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio.*
15. Cyhoeddi a chyflwyno'r Hysbysiadau canlynol o dan ddarpariaethau Deddf Tai, 1985 sy'n gofyn i denantiaid gwblhau trafodion (Adrannau 140 a 141). *
16. Ymgymryd â chwblhau'r holl ffurfioldebau cyfreithiol angenrheidiol mewn cysylltiad â gwaredu anheddau Cyngor ac i adfeddiannu anheddau Cyngor mewn achosion priodol, yn unol â darpariaethau Deddf Tai, 1985.*
17. Gweithredu ar Adroddiadau yn ymwneud â diffygdalwyr morgaeisi. *
18. I gyflwyno'r holl hysbysiadau priodol mewn cysylltiad â'r Cynllun Rhenti i Forgeisi dan ddarpariaethau Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol, 1993.*
19. I arfer y pwerau cyfarwyddo ar gael i'r Cyngor Bwrdeistref o dan Adran 77 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus, 1994, a hefyd i wneud cwynion i Lys yr Ynadon ar ran yr Awdurdod o dan Adran 78 o'r Ddeddf. *
20. I amrywio'r ffioedd sy'n daladwy o dan Ran VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Mynediad at Wybodaeth) *
21. I lofnodi contractau ar gyfer caffael a gwaredu buddiannau mewn tir yn unol â pholisi'r Cyngor. *
22. I lofnodi a chyflwyno ceisiadau am wybodaeth o dan Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976. *
23. Cymeradwyo presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau datblygu Aelodau allanol lle mae'r rhain wedi'u cysylltu â Rhaglen Datblygu Aelodau y cytunwyd arni gan y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.
24. Yn achos yr Aelod(au) a enwebwyd yn methu, mynychu cynadleddau, seminarau neu gyfarfodydd tebyg eraill, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd), i awdurdodi dirprwyon i fod yn bresennol yn eu lle.
25. (i) Cymeradwyo ceisiadau am logi Siambr y Cyngor ac Ystafelloedd Pwyllgor.

- (ii) Cymeradwyo defnyddio'r cyfleuster fideo-gynadledda tu allan i oriau swyddfa mewn amgylchiadau eithriadol ac i drafod telerau arbennig ar gyfer defnydd o'r fath, ac ar gyfer cysylltiad â chynadleddau rhyngwladol, yn unol â chostau galwadau a gafwyd.
 - (iii) Cynnig cyfraddau gostyngol o hurio a/neu hepgor yr holl daliadau mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, pan ystyrir bod hynny'n briodol.
 - (iv) Cytuno diwygiadau yn y dyfodol i'r raddfa o daliadau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
26. I ddelio â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â gwrthdaro buddiannau sy'n ymwneud â throsglwyddo stoc.
27. I ddelio â gweinyddiaeth y cynllun bathodynau glas gwneud unrhyw benderfyniadau ynghlwm â hynny.
28. Yn ogystal â chodi baneri'r Undeb a Chymru ar hyd yr amser, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i roi cyfarwyddiadau ar gyfer codi'r faner neu'r baneri perthnasol ar Swyddfeydd y Cyngor ar achlysuron arwyddocaol, naill ai yn uchel mewn dathliad neu hanner mast fel y bo'n briodol.
29. I fod yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar y Cyngor gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.
30. (i) I benderfynu a ellid atal gwybodaeth o dan eithriadau a gynhwysir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ar ran y Cyngor. ***
- (ii) Mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol i weithredu fel 'Person Cymwys' at ddibenion Adran 36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. **
31. Cynyddu Graddfa Ffioedd yn flynyddol am Wasanaethau Cofrestru Anstatudol yn unol â mynegeio chwyddiant priodol.
32. Paratoi a chynnal rhestr o'r swyddi hynny sy'n cael eu hystyried o fod â chyfyngiadau gwleidyddol o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

*yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid i weithredu, mae'r Pennaeth Gwasanaeth, Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru neu Uwch Gyfreithiwr dynodedig yn cael ei awdurdodi i arfer y swyddogaethau hyn.

**yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid i weithredu, mae'r Pennaeth Gwasanaeth, Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru yn cael ei awdurdodi i arfer y swyddogaethau hyn.

*** yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid i weithredu, neu ar gyfer hwylustod gweithredol, gellir arfer y dirprwyaethau hyn gan y Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol neu'r Pennaeth Gwasanaeth, Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru.

PRIF SWYDDOG TAI A'R ECONOMI

Dynodiad neu ddirprwyd gan y Cyngor

Dim

Swyddogaethau Gweithredol

I gael y pŵer i:

1. Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol a'r Aelod(au) Ward Lleol, i gytuno ar y telerau ar gyfer unrhyw gam caffael a/neu waredu tir ac adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, neu'n cael eu defnyddio gan y Cyngor (yn cynnwys penderfyniad terfynol ar ffiniau), gyda darpar brynwyr a/neu werthwyr ac awdurdodi cwblhau trafodion.*
2. I reoli cyfleusterau ac eiddo a ddefnyddir at ddibenion datblygu economaidd gan gynnwys ffatrïoedd, warysau, swyddfeydd, siopau, tir, marchnadoedd, siopau canol y dref a stad amaethyddol yn arbennig i awdurdodi: *
 - (a) dewis a gwirio tenantiaid;
 - (b) cyd-drafod a setlo termau ac awdurdodi'r gosodiadau; a
 - (c) chytuno ar gonsesiynau ar unrhyw adeg yn ystod meddiannaeth tenant.
3. I gyd-drafod a chytuno rhenti a theleraau eraill am drwyddedau tymor byr, hawddfreintiau a ffyrddfreintiau, gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol yn statudol ar delerau y cytunwyd arnynt gan fformiwla statudol neu fel arall, yn amodol ar ymgynghoriad priodol gyda'r Aelod Arweiniol a'r Aelod(au) Lleol. *
4. I gyd-drafod a chytuno ar gytundebau prydles gan gynnwys adolygiadau rhent ar eiddo a brydlesir gan y Cyngor, ac i'r Cyngor.*
5. I brisio holl asedau eiddo'r Cyngor.*
6. I brisio tir ac adeiladau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Chyrff Cyhoeddus eraill ar sail ennill ffioedd lle bo'n briodol.*
7. I brisio eiddo am forgais neu grant ac ar gyfer dibenion cymeradwy eraill, gan gynnwys asedau eiddo pobl oedrannus sy'n mynd i ofal adran Gofal Cymdeithasol y Cyngor.*
8. I bennu gwerth pob eiddo y mae Hysbysiad sy'n honni iddo arfer yr hawl i brynu yn dod i law o dan ddarpariaethau Rhan V o Ddeddf Tai 1985, ac i benderfynu ar ba delerau y bydd eiddo o'r fath yn cael ei waredu yn unol â darpariaethau Deddf Tai 1985.*
9. I wneud taliadau am golli cartref o dan ddarpariaethau Deddf lawndal Tir 1973 (swm a gyfrifwyd gan fformiwla statudol yn ymwneud â gwerth ardrethol).*
10. Gwneud taliadau aflonyddu dan ddarpariaethau Deddf lawndal Tir 1973.*

11. I ddewis contractwyr i wneud gwaith mewn perthynas â gwahanol gategoriâu o waith sy'n dod o fewn cylch gorchwyl yr Adran Tai a'r Economi a gweithredu ar ran cleientiaid eraill sy'n defnyddio'r adran ar gyfer gwaith o'r fath, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau.
12. Cymeradwyo, gweithredu a gweinyddu grantiau datblygu busnes a benthyciadau i fusnesau cymwys yn unol â thelerau ac amodau cynlluniau a gymeradwywyd, (gan gynnwys grantiau ar gyfer hyfforddiant) ac i adennill grantiau a/neu fenthyciadau yn unol â'r telerau ac amodau hynny.
13. Llofnodi ceisiadau am grant ar ran y Cyngor ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a/neu i'r Cyngor ei hun fel Corff Cyflawni Arweiniol, fel y bo'n briodol.
14. I ymrwmo i gontractau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru (ac unrhyw gorff arall a noddir yn gyhoeddus) i ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Ffyniant Economaidd gymeradwy'r Cyngor.
15. Awdurdodi, monitro a gwerthuso grantiau i'r sector gwirfoddol sy'n hwyluso darpariaeth o Strategaeth Ffyniant Economaidd gymeradwy'r Cyngor.
16. I gyflwyno ceisiadau i ddarparwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol am gyllid ac i ddarparu gwasanaethau yn unol â thelerau'r darparwr cyllid.
17. Awdurdodi cynnal marchnadoedd arbenigol megis Marchnadoedd Ffermwyr, Marchnadoedd Ffrengig, Marchnadoedd Cyfandirol a marchnadoedd tebyg eraill ar dir a reolir gan y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r aelod arweiniol ac aelodau lleol, fel y bo'n briodol.
18. Mewn achos o gamymddwyn gan fasnachwr ar unrhyw farchnad, i gymryd camau disgyblu, gan gynnwys atal neu wahardd o'r farchnad os tybir bod hynny'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol.
19. Awdurdodi a gweithredu digwyddiadau y mae'r Cyngor yn ei arwain neu'n cyfrannu ato, gan ddefnyddio incwm gwaith yr adran Tai a'r Economi (neu adrannau eraill lle bo'n berthnasol) a pryd comisiynwyd gan yr adran Llywodraethu a Chwsmeriad gan ddefnyddio'r gyllideb digwyddiadau corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol.
20. Amrywio taliadau neu i gytuno ar becynnau hyrwyddo neu i gyflwyno mân daliadau newydd a gynlluniwyd i gyflenwi cost holl weithgareddau a chyfleusterau adran.
21. Trefnu a chyflwyno rhaglenni adloniant a diwylliant a noddir gan y Cyngor drwy ei raglenni celfyddydau.
22. Penderfynu a dyfarnu ceisiadau unigol am nawdd celfyddydau.

23. Cymeradwyo oriau agor a gweithredol cyfleusterau o fewn cwmpas yr adran Tai a'r Economi (yn cynnwys y Ganolfan Groeso, Shopmobility a'r holl swyddfeydd lloeren eraill).
24. Penderfynu ar geisiadau a darparu lle bo'n berthnasol, llaeth, prydau bwyd a lluniaeth yn unol â pholisi'r Cyngor.
25. I reoli Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor.
26. Trafod a chytuno rhenti ar gyfer gosod Canolfannau Cymunedol yn gylchol.
27. Goruchwyliaeth gyffredinol o reolaeth y Canolfannau Cymunedol a'r Neuadd Goffa.

Swyddogaethau Tai

28. Gorfodi'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Safleoedd Carafanau 1968.
29. Awdurdodi bod gwerthiant gorfodol o eiddo gwag o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Cyfraith Eiddo 1925 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd.
30. Rhoi Tystysgrifau Cymeradwyo Gwaith a wnaed ar gyfer gwaith gwella, trwsio, newid ac addasu o dan Ran I Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, gan gynnwys taliadau mewn rhandaliadau.
31. Delio gyda'r holl faterion sy'n codi o geisiadau am grantiau o dan Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, yn cynnwys cymeradwyo a gwrthod ceisiadau, yn amodol ar ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas ag agweddau ariannol, ac i unrhyw ddyraniad ariannol sydd ar gael at y diben hwn mewn unrhyw un flwyddyn na ragorir arni.
32. I ymdrin â phob agwedd ar gymeradwyo a thalu am waith nas rhagwelwyd uwchlaw terfynau y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd, mewn perthynas â Grantiau Adnewyddu Tai.
33. Ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh i ymdrin â materion yn codi o'r cynlluniau Benthyciad Gwella Sector Preifat a Benthyciad Lleoedd Llewyrchus yn Llawn Addewid, gan gynnwys cymeradwyo a gwrthod ceisiadau am fenthyciadau o dan y cynlluniau perthnasol.
34. Gweinyddu'r gofrestr anghenion tai (rhestr aros, rhestr trosglwyddo ac ati).
35. Gosod anheddau Cyngor ac i enwebu landlordiaid cymdeithasol eraill gan gynnwys gosodiadau dros dro nad ydynt yn sicr, ymgeiswyr ar y rhestr aros, trosglwyddiadau, cyfnewidiadau, gweithwyr allweddol, tenantiaethau wedi'u clymu a chynlluniau symudedd.
36. (i) Gweinyddu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor tuag at y Digartref o dan ddarpariaethau Deddf Tai 1996.

- (ii) Ystyried a phenderfynu ar unrhyw geisiadau am adolygiad a dderbyniwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 202 o Ddeddf Tai 1996.
 - (iii) Gwneud penderfyniadau o dan adran 160A o Ddeddf Tai 1996 mewn perthynas ag ymgeiswyr a ystyrir yn anaddas i fod yn denant.
37. Llofnodi a chyflwyno pob hysbysiad perthnasol o dan Ddeddf Tai, 1985 (ac unrhyw Ddeddfau Tai perthnasol eraill) yn ymwneud â:-
- Lleoliad a chasglu rhenti a thaliadau
 - Amrywio telerau ac amodau tenantiaethau
 - Pob mater o dan gynllun Darpariaethau 'Hawl i Brynu' (nid wedi'u dirprwyo'n benodol fel arall)
 - Ymgynghori â thenantiaid
 - Hawl i Atgyweirio
 - lawndal ar gyfer gwelliannau tenantiaid
38. Llofnodi a chyflwyno'r holl Rybuddion perthnasol i Ymadael, Rhybuddion o Geisio Meddiant ac mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, awdurdodi achosion cyfreithiol am Feddiant, Costau a Gwarantiau Gweithredu ac i sicrhau bod tenantiaid Diogel a Chyflwyniadol yn cael eu troi allan o ganlyniad i:-
- Beidio â thalu rhent
 - Torri cytundeb tenantiaeth
39. Cyflawni neu drefnu i gyflawni gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r holl eiddo sy'n eiddo i'r Cyngor o fewn y portffolio tai.
40. Cyflawni neu drefnu i gyflawni atgyweiriadau, gwelliannau ac addasiadau yn unol â'r rhaglen Cyfalaf Tai neu amcangyfrifon refeniw.
41. I reoli safle swyddogol y Cyngor ar gyfer llety Sipsiwn.
42. Awdurdodi achos cyfreithiol am niwsans mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid a'r Aelodau Lleol.
43. Awdurdodi Swyddogion Tai i arfer yr hawl i ymddangos yn y Llys Sirol dan Adran 60(2) o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984.
44. I gael gwared ar eiddo o fewn y portffolio tai a nodwyd fel gweddill i anghenion yr Awdurdod, gyda chytundeb yr Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelodau Lleol priodol.
45. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i ystyried a phenderfynu ar geisiadau i'r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn o ran ad-dalu'r disgownt o dan Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd).

46. Ystyried ac ymateb i gynnig rhybuddion a dderbyniwyd yn unol ag Adran 156A o Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd) ar yr amod nad oes unrhyw gynnig yn cael ei dderbyn heb ymgynghori ymlaen llaw gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol, Aelod Arweiniol perthnasol ar gyfer materion tai a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh, ac wedi hynny i roi gwybod am y camau a gymerwyd o dan y ddarpariaeth hon i'r Bwrdd Gweithredol er gwybodaeth.
47. Cymeradwyo gweithredu polisïau gosod lleol lle yr ystyrir bod hynny'n briodol, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio Tai a'r Amgylchedd, yr Aelodau Lleol perthnasol ac Aelod Arweiniol y Bwrdd Gweithredol Tai a Chynllunio.
48. I arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, ar ran y Cyngor yn rhinwedd ei swydd fel landlord, i ddelio ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
49. Adolygu penderfyniadau i geisio gorchymyn am feddiant o dai annedd a osodir o dan denantiaethau rhagarweiniol ac isradd, yn unol â Rheoliadau Tenantiaid Rhagarweiniol (Adolygiad) 1997 a Rheoliadau Tenantiaid Isradd (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2005.
50. Mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol a'r Aelod Arweiniol perthnasol, cymeradwyo, lle na fydd unrhyw wrthwynebiadau, gynlluniau gwaredu yn y dyfodol yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer y ffensys mewn gerddi cynllun agored ar stadau tai Cyngor.
51. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol perthnasol a'r Aelod(au) lleol, i ddelio â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â thorri cyfamodau sy'n effeithio ar eiddo a werthwyd o dan y cynllun 'Hawl i Brynu' trwy gyfrwng:
 - (i) gorfodi'r cyfamod, yn cynnwys achos gwaharddeb os oes angen, i atal gwaith adeiladu personol, neu
 - (ii) cyd-drafod rhyddhau'r cyfamod wrth ystyried taliad ariannol.

Yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Tai a'r Economi i weithredu, gellir arfer y dirprwyaethau hyn gan:

Pennaeth Gwasanaeth, Asedau	-	Dirprwyaethau 1 - 10
Pennaeth Gwasanaeth, Adfywiad	-	Dirprwyaethau 11 - 27
Pennaeth Gwasanaeth, Tai	-	Dirprwyaethau 28 - 51

PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO

Swyddogaethau Cynllunio a Rheoli Adeiladu

Dynodiad neu ddirprwyad gan y Cyngor

I gael y pŵer i:

1. Mewn achosion lle: *

- (a) Nad oes sylwadau croes wedi'u derbyn; a
 - (b). Bod gwrthwynebiadau wedi cael eu datrys drwy drafod a chyd-drafod.
- A. Cymeradwyo pob math o geisiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar yr amod eu bod:-
- (i) yn cyd-fynd â darpariaethau'r cynllun datblygu priodol, canllawiau polisi mabwysiedig eraill neu friff datblygu
 - (ii) yn cydymffurfio â'r holl safonau awdurdod lleol mabwysiedig perthnasol
 - (iii) ym mhob achos y mae'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ystyried yn ddoeth i arfer ei awdurdod dirprwyedig, yn niffyg hynny bydd yn adrodd y mater i'r Pwyllgor.

Ac eithrio

- (i) lle mae'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ei ystyried yn briodol yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio, i gwblhau cytundebau ymlaen llaw sy'n sicrhau rheolaeth dros ddatblygiad neu gyfraniadau/gwaith ariannol er lles y gymuned ac
 - (ii) i'r fath amodau y mae'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn barnu ei fod yn briodol ei osod ar y caniatâd grant.
- B Gwrthod pob math o geisiadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 lle mae'n fodlon bod y cynigion yn groes i ddarpariaethau'r cynllun datblygu priodol, canllaw polisi cynllunio a chylchlythyrau, nid yn cydymffurfio â safonau awdurdod lleol a fabwysiadwyd neu a fyddai'n groes i arferion cynllunio sefydledig a fyddai'n achosi niwed dangosadwy i fuddiant o bwysigrwydd cydnabyddedig.*

Ar yr amod:-

- (i) na fyddai'r penderfyniad yn gwrthdaro ag unrhyw sylwadau a dderbyniwyd o fewn y cyfnod ymgynghori.
- (ii) ym mhob achos y mae'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ei ystyried yn ddoeth i arfer ei awdurdod dirprwyedig, ac os methir hynny bydd yn adrodd y mater i'r Pwyllgor.
- (iii) bod yr Aelod(au) Lleol wedi cael eu hysbysu o'r bwriad i wrthod y cais.

2. I BENDERFYNU fel y bo'n briodol ar y categorïau canlynol o ymgeiswyr, yn unol â'r Deddfau Cynllunio.*

Penderfyniadau ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid

3. I GYFLAWNI'R swyddogaethau canlynol:

Apeliadau*

1. Cynnal apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol

Gorchmynion Cadw Coed**

1. I gychwyn, ac os nad oes gwrthwynebiadau wedi dod i law, i gadarnhau Gorchmynion Cadw Coed
2. I ymdrin â hysbysiadau ar gyfer gwaith i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth. Lle mae gwrthwynebiadau a'r bwriad yw caniatáu'r gwaith, arfer y pŵer hwn mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.
3. Penderfynu ar geisiadau am waith, gan gynnwys torri coed sy'n destun Gorchmynion Cadw Coed. Lle mae gwrthwynebiadau i dorri coed, a bod y Prif Swyddog o blaid caniatáu'r gwaith, arfer y pŵer hwn mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelodau Lleol perthnasol.

Trwyddedu Gweithredwyr Cerbydau*

I gyflwyno gwrthwynebiadau mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod Lleol.

Adeiladau Rhestredig*

Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd Adeilad Rhestredig ac eithrio ceisiadau sy'n dod o fewn y categorïau canlynol a fydd yn cael eu trosglwyddo i CADW gyda sylwadau ar ran y Cyngor:-

(a) sy'n cynnwys dymchwel;

(b) y mae'n rhaid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012;

(c) yn ymwneud â gwaith sy'n effeithio ar y tu allan i Adeiladau Rhestredig Gradd II, lle byddai rhoi caniatâd yn groes i gyngor y Swyddog Cadwraeth Adeiladau a enwir neu, am ba

bynnag reswm, ni fydd y Swyddog Cadwraeth Adeiladau a enwir yn gallu cynnig cyngor ar y cais hwnnw; neu

(d) sy'n effeithio ar naill ai'r tu mewn neu'r tu allan i adeilad rhestredig Gradd I neu II (seren).

- 2 Penderfynu ar geisiadau i ddymchwel adeiladau heb fod yn rhestredig mewn ardaloedd cadwraeth.
 - 3 Penderfynu ar geisiadau am gymorth grant, o fewn y canllawiau a osodwyd gan y Cyngor, mewn perthynas ag adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
 - 4 Penderfynu ar geisiadau am gymorth grant, o fewn y canllawiau a osodwyd gan y Cyngor, mewn perthynas ag adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.**
4. Penderfynu ar geisiadau cyflawni amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio.*
 5. Penderfynu ar geisiadau o dan Adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar fân newidiadau i ganiatâd cynllunio presennol.*
 6. I ddelio â'r holl hysbysiadau amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac ymateb iddynt, os yw gwrthwynebiadau yn dod i law ai peidio, o fewn y 28 diwrnod a ganiateir, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod(au) Lleol ar gyfer yr ardal dan sylw.*
 7. Penderfynu ar geisiadau caniatâd tybiedig o dan Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.*
 8. Penderfynu, yn dilyn hysbysiad, a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyngor i ddymchwel adeiladau nad ydynt yn cael eu diogelu eisoes gan ddeddfwriaeth adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth, ac mewn achosion lle penderfynir bod angen cymeradwyaeth, i gymeradwyo'r cais, oni bai bod gwrthwynebiadau i'r cynnig wedi eu derbyn.*
 9. Penderfynu ar geisiadau am Dystysgrifau Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Presennol a Thystysgrifau Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig dan Adrannau 191 a 192 yn y drefn honno o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.*
 10. Cyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi o dan Adran 172 ac i amrywio a thynnu Hysbysiadau Gorfodi yn ôl o dan Adran 173A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac i gyflwyno Hysbysiadau Gorfodi Adeiladau Rhestredig ac i amrywio a thynnu Hysbysiadau o'r fath yn ôl o dan Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, yn amodol ar ymgynghori ymlaen llaw gyda

Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yr Aelod(au) Lleol a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.*

11. I gyflwyno Hysbysiadau Torri Amodau o dan Adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990, yn amodol ar ymgynghori ymlaen llaw gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yr Aelod(au) Lleol a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.*
12. I gyflwyno:-
 - (i) Hysbysiadau Tramgwyddo Cynllunio o dan Adran 171C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990 ac i wrando a phenderfynu ar unrhyw sylwadau a wneir o ganlyniad.*
 - (ii) Hysbysiadau Rhybydd Gorfodaeth o dan Adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990,*
 - (iii) Hysbysiadau Atal Dros Dro o dan Adran 171E, F, G, H o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990.*
13. I gyflwyno Hysbysiadau o dan Adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990, o ran tir yn effeithio'n andwyol ar amwynder cymdogaeth ('Hysbysiadau Tir Blêr'), yn amodol ar ymgynghori ymlaen llaw gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yr Aelod(au) Lleol a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.*
14. Penderfynu ar geisiadau dan Reoliadau Gwrychoedd 1997.*
15. Awdurdodi Swyddogion eraill i gael y pwerau mynediad o dan Adran 95 o Ddeddf Adeiladu 1984 ac Adrannau 196A, 214B a 324 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990.
16. I amrywio neu ddirymu Gorchmynion Cadw Coed yn amodol ar ymgynghori ymlaen llaw gydag Aelod(au) Lleol, a chael eu cytundeb.**

Swyddogaethau Gweithredol

17. I ddelio â Hysbysiadau Datblygu Telathrebu, ac ymateb iddynt, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Aelod Lleol os derbynnir gwrthwynebiadau ai peidio.*
18. I gymeradwyo neu wrthod yr holl gynlluniau sy'n cydymffurfio neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu sydd mewn grym ar y pryd neu Ddeddf Adeiladu 1984.***
19. Trefnu ar gyfer diogelu neu ddymchwel strwythurau peryglus, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiadau dan Adran 78 o Ddeddf Adeiladu 1984.***
20. I gyflwyno Hysbysiadau o dan Ddeddf Adeiladu 1984 ac Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.***

21. Apelio yn erbyn hysbysiad sydd angen gwaith o dan Adran 102 Deddf Adeiladu 1984.
22. I roi caniatâd i adeiladu dros garthffosydd.***
23. Trefnu a chymeradwyo rhifo tai ac enwi strydoedd.***
24. Cyflwyno'r dystysgrif gwblhau safonol a gymeradwywyd gan y Cyngor sy'n ardystio bod y gwaith yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu.***
25. Trafod a sefydlu'r Rheolaeth Adeiladu briodol a Ffioedd Cyngor Cyn Gwneud Cais Cynllunio mewn ymateb i rymoedd y farchnad.***
26. I gymryd camau gorfodi mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu sydd mewn grym ar y pryd.***
27. Awdurdodi Swyddogion eraill i gael y pwerau mynediad o dan
 - (i) Adran 95 o Ddeddf Adeiladu 1984;
 - (ii) Adran 214B a 324 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - (iii) Adran 88 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth),
1990; ac
 - (iv) Adran 36 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus), 1990.
28. I benderfynu a yw datblygiadau arfaethedig angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch a oes angen datganiadau amgylcheddol a rhoi safbwyntiau sgrinio a chwmpasu, dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac wedi rhoi gwybod i'r Aelodau Lleol perthnasol.*
29. Penderfynu a yw datblygiadau arfaethedig angen Asesiadau Priodol a rhoi safbwyntiau barn ar brofion o arwyddocâd tebygol, o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd Ewropeaidd 1992, Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, & c.) 1994 ac unrhyw ddeddfwriaeth/rheoliad cysylltiedig, yn dilyn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelodau Lleol perthnasol.**
30. Adolygu'r swm gohiriedig sy'n daladwy yn flynyddol, am gynnal a chadw manau agored cyhoeddus yn y dyfodol mewn datblygiadau tai newydd ac i osod swm newydd os ystyrir hynny'n briodol.
31. I wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i sefydlu a chynnull cyfarfodydd o'r Panel Dylunio ac ehangu aelodaeth y Panel fel yr ystyrir yn briodol.**
32. I ddiweddarau o bryd i'w gilydd:
 - (a) Lluosyddion a Chyfraniadau Cost Adeiladu fel y dangosir yn Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol cymeradwy'r Cyngor ar Gyfraniadau Datblygwyr i Ysgolion yn unol â chyngor y Llywodraeth;** a'r

- (b) rhestr o ysgolion sydd â phrinder presennol o leoedd yn seiliedig ar Gynllun Trefniadaeth Ysgolion Wrecsam.**
33. Arfer holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â gwrychoedd uchel dan ddarpariaethau Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac unrhyw Reoliadau a wnaed dan y ddeddf honno, gan gynnwys awdurdod i godi tâl am y ffi uchaf a ganiateir o dan y Rheoliadau perthnasol mewn cysylltiad â chwynion a wneir i'r Cyngor, neu unrhyw gyfradd ostyngol yn unol â pholisïau'r Cyngor.**
34. Ymateb i'r canlynol mewn perthynas â phrosiectau isadeiledd cenedlaethol arfaethedig yn unol â Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd a rheoliadau cysylltiedig):-
- (a) Ymgynghori ar ddatganiad yr hyrwyddwr o ymgynghori cymunedol;*
- (b) cais am sylwadau ar ddigonolrwydd ymgynghoriad yr hyrwyddwr;*
- (c) gofyn am sylwadau ar farn gwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*
35. Gweithredu fel Cofrestrydd Pridiannau Tir Lleol.**
36. I adolygu ffioedd a godir ar gyfer chwiliadau lleol ac i wneud newidiadau o'r fath i'r ffioedd yr ystyrir yn briodol o bryd i'w gilydd.

Swyddogaethau Rheoleiddio

Dynodiad neu ddirprwyad gan y Cyngor

37. I arfer pwerau mewn cysylltiad â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur o dan Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001. ****
38. Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer. ****
39. Cymeradwyo rhoi trwyddedau o dan Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol, 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II, o ran cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, gweithredwyr a gyrwyr yn unol â pholisïau'r Cyngor ac i weithredu fel swyddog awdurdodedig y Cyngor ar gyfer diben Rhan II o'r Ddeddf. ****
40. Gwrthod ceisiadau ar gyfer Trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat. ****
41. Atal neu ddirymu trwydded i yrru cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat os mae'n ymddangos o fudd i ddiogelwch y cyhoedd i atal neu ddirymu'r drwydded yn ddi-oed; mewn pob achlysur o ddefnydd y pŵer hwn rhaid adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol. ****

42. Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau o dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 i gynnal adloniant rheoledig a threfnu rheoliadau ac amodau yn ymwneud â thrwyddedau o'r fath, mewn ymgynghoriad ag Aelodau Lleol.****
43. Gwrthod ceisiadau am drwyddedau i gynnal adloniant rheoledig mewn perthynas ag eiddo nad ydynt wedi'u dyrchafu i'r safonau sy'n ofynnol mewn perthynas â rhagofalon tân.****
44. Gorfodi darpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â gwerthu alcohol i blant.****
45. Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol, i gymeradwyo pob hysbyseb i'w harddangos ar Gerbydau Hacni Wrecsam.****

Swyddogaethau o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003:

46. Cymeradwyo'r holl geisiadau i roi tystysgrif trwydded eiddo neu tystysgrif eiddo clwb yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 lle nad oes unrhyw sylwadau perthnasol.****
47. Cymeradwyo pob cais yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 am drwydded bersonol, amrywiad goruchwyliwr eiddo dynodedig neu hysbysiadau a roddir mewn perthynas â gweithgaredd yn digwydd o dan awdurdod hysbysiad digwyddiad dros dro lle nad oes gwrthwynebiad gan yr heddlu.****
48. Penderfynu ar yr holl geisiadau i'w symud fel goruchwyliwr dynodedig eiddo.****
49. Penderfynu a ddylai Gwrandawriad ddigwydd yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 os bydd yr holl bartïon yn cytuno nad yw Gwrandawriad yn angenrheidiol.****
50. Gofyn am wybodaeth gan barti i egluro pwynt i'w ystyried mewn Gwrandawriad yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, Rheoliadau (Gwrandawriadau) 2005.****

Swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005:

51. I benderfynu'r ceisiadau canlynol lle nad oes unrhyw sylwadau yn cael eu derbyn neu pan fydd sylwadau'n cael eu tynnu'n ôl:****
 - Cais am Drwydded Eiddo
 - Cais am amrywiad i drwydded
 - Cais am ddatganiad dros dro
 - Cais am drwyddedau peiriannau clwb/hapchwarae clwb
52. Penderfynu ar y materion canlynol:****
 - Cais am drwyddedau ac eithrio trwyddedau peiriannau clwb/hapchwarae clwb
 - Canslo trwyddedau peiriannau hapchwarae eiddo trwyddedig
 - Ystyried rhybudd defnydd dros dro

53. Penderfynu ar geisiadau am drosglwyddo trwydded lle na dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn Hapchwarae.****
54. I bennu ffioedd yn unol ag Adran 212 o Ddeddf Gamblo 2005 mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor.****
55. I lofnodi a chyflwyno ceisiadau am wybodaeth o dan Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 ynghylch unrhyw swyddogaeth o fewn cymalau'r Adran Cynllunio a Rheoleiddio ond ddim i atal y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid sydd â'r un swyddogaeth. ****

Swyddogaethau Gweithredol

I gael pŵer i :-

56. Awdurdodi holl swyddogion Adran yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig, neu asiantiaid/contractwyr a all o bryd i'w gilydd gael eu cyflogi i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau penodol a ddirprwyir i Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio, yn amodol ar swyddogion o'r fath yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny.****
57. Gynnal arolygiadau, ymchwiliadau, cyfweiliadau, samplo, gwaharddiadau, atafaeliadau, cadw, cofnodi, cyflwyno hysbysiadau, (gan gynnwys hysbysiadau atal dros dro), cyhoeddi hysbysiadau cosb/hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau, hepgoriadau, trosglwyddiadau, awdurdodiadau, trwyddedu, cofrestriadau, achosion cyfreithiol ac i osod ffioedd a thaliadau fel sydd o fewn maes Adran yr Amgylchedd a Chynllunio o dan y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol iddi a nodir isod, ynghyd ag unrhyw reoliadau perthynol neu unrhyw ddeddfwriaeth israddol a wnaed oddi tani neu drwy arfer pwerau a gyflwynwyd, ac unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau iddi ac i arfer yr holl bwerau a dyletswyddau perthnasol eraill, gan gynnwys pwerau mynediad a ddarperir o dan ddeddfwriaeth o'r fath.****

Deddfwriaeth

Deddf Asiantaethau Llety, 1953
 Deddf Gweinyddu Cyfiawnder, 1970
 Deddf Cynnyrch Amaethyddiaeth (Graddio a Marcio), 1928
 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol), 1968, 1972 ac 1976b
 Deddf Amaethyddiaeth, 1970
 Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid, 1963
 Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid, 1984
 Deddf Iechyd Anifeiliaid, 1981
 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1998
 Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002
 Deddf Lles Anifeiliaid 2006
 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014
 Deddf Gwrthderfysgaeth, Troseddau a Diogelwch 2001
 Deddf Diogelu Anifeiliaid 2000
 Deddf Bancio, 1987

Deddf Bridio Cŵn, 1973 a 1991
Deddf Adeiladu, 1984
Deddf Enwau Busnes, 1985
Deddf Canser, 1939
Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu, 1960
Deddf Seliwloid a Ffilm Sinematograffig, 1922
Deddf Plant a Theuluoedd, 2014
Deddf Plant a Phobl Ifanc, 1933
Deddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco), 1991
Deddf Dydd Nadolig (Masnachu), 2004
Deddf Sinemâu, 1985
Deddf Aer Glân, 1993
Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
Deddf Newid Hinsawdd 2008 a Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010
Deddf Cwmnïau, 1985
Deddf Cwmnïau, 2006
Deddf Credyd Defnyddwyr, 1974
Deddf Credyd Defnyddwyr, 2006
Deddf Hawliau Defnyddwyr, 2015
Deddf Gwarchod Defnyddwyr 1987
Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014
Deddf Rheoli Llygredd, 1974
Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio), 1989
Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau, 1988
Deddf Hawlfraint, Etc a Nodau Masnach (Troseddau a Gorfodi), 2002
Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol a Llys, 1990
Deddf Ymgeisiau Troseddol, 1981
Deddf Cyfiawnder Troseddol, 1988
Deddf Cyfiawnder a Heddlu 2001 (Hysbysiadau Cau)
Deddf Bwa Croes, 1987
Deddf Rheoli Tollau Thramor a Chartref, 1979
Deddf Cŵn Peryglus, 1991
Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus, 1976
Deddf Datblygu Twristiaeth, 1969
Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
Deddf Cŵn, 1906
Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996
Deddf Diwygio Addysg, 1988
Deddf Arbed Ynni, 1981
Deddf Ynni, 1976
Deddf Ynni 2011
Deddf Menter 2002
Deddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990
Deddf yr Amgylchedd, 1995
Deddf Gwybodaeth Diogelwch ac Amgylcheddol, 1968
Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni)(Cymru), 2018
Deddf Gwerthwyr Tai, 1979
Deddf y Cymunedau Ewropeaidd, 1972
Deddf Ffrwydron, 1875 a 1923

Deddf Ffrwydron (Oedran Prynu), 1976
Deddf Ffatrioedd, 1961
Deddf Masnachu Teg, 1973
Deddf Cemegau Fferm a Gardd, 1967
Deddf Arfau Tanio 1968
Deddf Tân Gwylt, 1951
Deddf Tân Gwylt, 2003
Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Mannau Chwaraeon 1987
Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000
Deddf Bwyd, 1984
Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
Deddf Diogelwch Bwyd, 1990
Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd, 1985
Deddf Ffugiadau a Drwgfathu, 1981
Deddf Twyll 2006
Deddf Gamblo 2005
Deddf Cŵn Gwarchod, 1975
Deddf Dilysnodau 1973
Deddf Iechyd 2006 (fel y'i newidiwyd)
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974
Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru), 2009
Deddf Hur Bwrcas 1964
Deddf Tai 1985 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989)
Deddf Tai 1996
Deddf Tai 2004
Deddf Tai 2014
Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio, 1996
Deddf Broceriaid Yswiriant (Cofrestru), 1977
Deddf Cwmnïau Yswiriant, 1982
Deddf Sylweddau Meddwol (Cyflenwi), 1985
Deddf Cyllyll, 1997
Deddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol), 1989
Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol, 2007
Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006
Deddf Trwyddedu 2003
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 ac 1982 (fel y'i diwygiwyd)
Deddf Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2006
Deddf Llysoedd Ynadon, 1980
Deddf Cyfathrebu Maleisus, 1988
Deddf Llysoedd Ynadon, 1980
Deddf Meddyginiaethau, 1968
Deddf Mwyngloddiau a Chwareli, 1954
Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
Deddf Arwerthiannau Ffug, 1961
Deddf Sŵn Beiciau Modur, 1987
Deddf Cerbydau Modur (Cyfarpar Diogelwch i Blant), 1991
Deddf Cymorth Gwladol 1948
Deddf Cymorth Gwladol (Diwygio) 1951
Deddf Sŵn, 1996

Deddf Sŵn a Niwsans Statudol, 1993
Deddf Asiantaethau Nyrsys, 1957
Deddf Safleoedd Swyddfeydd, Siopau a Rheilffyrdd, 1963
Deddf y Symbol Olympaidd etc (Amddiffyn) 1995
Deddf Optegwyr, 1989
Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliadau), 1925
Deddf Anifeiliaid Anwes, 1951
Deddf Petrolewm (Crynhoi), 1928
Deddf Iechyd Planhigion, 1967
Deddf Gwenwynau, 1972
Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999
Deddf Prisiau, 1974 a 1975
Deddf Atal Difrod gan Blâu, 1949
Deddf Camddisgrifiadau Eiddo, 1991
Deddf Diogelu Anifeiliaid, 1911 a 1934
Deddf Diogelu Anifeiliaid 2000
Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygiad), 1954
Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion), 1954
Deddf Diogelu Rhag Tenynnau Creulon, 1988
Deddf Diogelu Rhag Troi Allan, 1977
Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016
Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1875, 1936 a 1961
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau), 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008
Deddf Iechyd (Cymru) 2017
Deddf Cerrig Llorio a Deunyddiau Llanw Eraill 1951
Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978
Deddf Dyluniadau Cofrestredig 1949
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.)(Cymru) 2019
Deddfau Sefydliadau Marchogaeth, 1964 a 1970
Deddf Traffig y Ffyrdd (Darpariaeth Canlyniadol), 1988
Deddf Traffig y Ffyrdd (Cerbydau Tramor), 1972
Deddf Traffig y Ffyrdd, 1988 a 1991
Deddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd, 1988
Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975
Deddf Whisgi'r Alban, 1988
Deddf Delwyr Metel Sgrap, 2013
Rheoliadau Codi Tân am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010
Deddf Lladd Dofednod, 1967
Rheoliadau Mangreoedd Di-Fwg etc (Cymru) 2007
Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010
Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011
Deddf Cyfreithwyr, 1974
Deddf Masnachu Dydd Sul, 1994
Deddf Telathrebu, 1984
Deddf Theatrau, 1968
Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014
Rheoliadau TSE (Cymru) 2002 (Fel y'i diwygiwyd)

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 (Fel y'i diwygiwyd)

Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002

Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010

Deddf Dwyn, 1968 a 1978

Deddf Cyfrannau Cyfnodol, 1992

Deddf Hysbysebu a Hybu Tybaco, 2002

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol, 1847

Deddf Disgrifiadau Masnach, 1968

Deddf Nodau Masnach, 1994

Deddf Cynrychiolaeth Masnachu (Personau Anabl), 1958 a 1982

Deddf Cynlluniau Masnachu, 1996

Deddf Stampiau Masnachu, 1964

Deddf Trafnidiaeth, 1982

Deddf Nwyddau a Gwasanaethau na ofynnwyd amdanynt, 1971 (fel y'i diwygiwyd)

Deddfau Nwyddau a Gwasanaethau na ofynnwyd amdanynt, 1971 a 1975

Deddf Recordiadau Fideo, 1984

Deddf Cerbydau (Trosedd), 2001

Deddf Cerbydau (Tollau), 1971

Deddf Dŵr, 1989

Deddf y Diwydiant Dŵr, 1991

Deddf Pwysau a Mesurau ac ati, 1976

Deddf Pwysau a Mesurau, 1985

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981

Deddfau Pobl Ifanc (Cyflogaeth), 1938 a 1964

Deddf Trwyddedu Sŵau, 1981

58. Trefnu claddedigaethau o dan Adran 46 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau), 1984.
59. Sicrhau penodiad person â chymwysterau addas a fydd yn cael eu dynodi yn Brif Arolygydd Pwysau a Mesurau ar gyfer yr Awdurdod.****
60. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i awdurdodi a dechrau achos cyfreithiol mewn perthynas â'r materion hynny y mae gan y Prif Swyddog gyfrifoldeb gweithredol.****
61. Enwebu eraill i fynd gyda swyddogion wrth gyflawni eu dyletswydd, fel y darperir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.****
62. Awdurdodi rhoi trwyddedau mewn perthynas ag arwerthiannau cist car a gwerthiannau tebyg eraill, lle mae ceisiadau o'r fath o natur elusennol, ar ôl ymgynghori â'r Aelod Lleol.****

63. Cyhoeddi Amrywiadau o Awdurdodiadau a Thrwyddedau Amgylcheddol o dan Adrannau 10 a 11 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990 a'r Rheoliadau Thrwyddedau Amgylcheddol 2010, nad ydynt yn cynnwys newid sylweddol mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Lleol.****
64. Gweithredu fel Swyddog yr Awdurdod Cartref ar gyfer y Cyngor.****
65. Cynnal cofrestrau o Drwyddedau a roddwyd ac i gymeradwyo rhoi trwyddedau dan y Deddfau canlynol:- ****
- Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916
a Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ, 1939 (Casgliadau o Dŷ i Dŷ a Strydoedd)
Deddf Trwyddedu 2003
Deddf Gamblo 2005
Deddf Hypnotiaeth, 1952
Deddf Elusennau 1992 (neu ddeddfwriaeth arall a all gymryd lle neu ddisodli Deddf o'r fath).
66. Penodi Swyddogion Priodol/Swyddogion Priodol yn eilydd, ar gyfer materion meddygol o dan bob adran o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 a rheoliadau cysylltiedig.****
67. Penodi Swyddogion fel Arolygwyr o dan Adran 19 (1) o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y 7Gwaith, etc. 1974.****
68. Arfer holl bwerau a dyletswyddau Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013, ac eithrio Is-bwyllgor o dri Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, i gynnwys yr Aelod Arweiniol perthnasol a fydd fel arfer yn cadeirio'r Is-bwyllgor, i benderfynu ar geisiadau am drwydded neu amrywio neu ddirymu trwydded os yw'r ymgeisydd neu'r trwyddedai wedi gofyn am y cyfle i wneud sylwadau llafar mewn ymateb i hysbysiad a roddir yn unol â Pharagraff 7(i) o Atodlen 1 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013. ****
69. Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol perthnasol, i osod y ffioedd ar gyfer ceisiadau o dan Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

Yn absenoldeb neu anallu'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio i weithredu, neu ar gyfer hwylustod gweithredol, gellir arfer y dirprwyaethau hyn gan:

- * a ** Pennaeth Gwasanaeth, Rheoli Cynllunio neu Polisi Cynllunio neu Pennaeth Gwasanaeth, Rheoli Cynllunio neu Polisi Cynllunio
- *** Y Pen Syrfëwr Rheoli Adeiladu
- **** Pennaeth Gwasanaeth, Gwarchod y Cyhoedd

PRIF SWYDDOG GOFAL CYMDEITHASOL

Dynodiad neu ddirprwyd gan y Cyngor

1. Gweithredu fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, mewn perthynas â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Swyddogaethau Gweithredol

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

2. Cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol Personol i Oedolion yn strategol a gweithredol a/neu eu diogelu gan y Cyngor.
 - Gwasanaethau oedolion, gan gynnwys iechyd meddwl, anableddau dysgu, pobl hŷn, anableddau corfforol;
 - Perfformiad a Rheolaeth Ariannol, yn cynnwys cwynion a sylwadau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion;
 - Gwasanaethau cymorth, gan gynnwys Adnoddau Dynol;
 - Gweithio mewn Partneriaeth a rhyngasiantaethol;
 - Comisiynu a chontractio ar draws yr holl wasanaethau.
3. Yn benodol, i arfer y swyddogaethau hynny o'r Cyngor sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion o dan Adrannau priodol y Deddfau canlynol fel y'u diwygiwyd neu y cawsant eu haildeddfu.
 - Deddf Cymorth Gwladol 1948
 - Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958
 - Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968
 - Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970
 - Deddf Budd-daliadau Atodol 1976
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983
 - Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983
 - Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
 - Deddf Tai 1985
 - Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986
 - Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990
 - Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991
 - Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
 - Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
 - Deddf Iechyd 1999
 - Deddf Llywodraeth Leol 2000
 - Deddf Safonau Gofal 2000
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001
 - Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002

- Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
 - Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
4. Gweinyddu'r holl daliadau a godir mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer oedolion gan gynnwys hepgor taliadau.
 5. Darparu gwelliannau ac addasiadau i gartref person anabl o dan adran 2(1)(e) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.
 6. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, i gychwyn achos mewn Llys neu Dribiwnlys arall o dan y Deddfau canlynol fel y'i diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd.
 - Deddf Cymorth Gwladol 1948 Adran 47 a 56(3)
 - Deddf Iechyd Meddwl 1959 Adran 131
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 29 a 30, Rhan V ac Adran 130
 - Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 Adran 22
 - Deddf Galluedd Meddyliol 2005 Rhan 2

Unrhyw swyddogaeth arall y Cyngor mewn perthynas â darparu gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion, sy'n cynnwys cais i Lys neu Dribiwnlys arall gan gynnwys erlyn troseddau, neu sy'n gofyn am weithredu unrhyw ddogfen sy'n weithredol yn gyfreithiol.

7. I oruchwylio'r broses gwynion yn ffurfiol, yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar estyniadau i amserlen ac ymateb i ymchwiliadau i gwynion ffurfiol.
8. I gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad cwynion blynyddol a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu priodol ac ar gael i AGC i'w arolygu.
9. Penderfynu ar dderbyn personau i Warcheidiaeth y Cyngor o dan Adran 7 a 37 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
10. Cymeradwyo pecyn Gofal yn y Gymuned sy'n fwy na chost gros Lleoliadau Preswyl ar gyfer categori cofrestru'r unigolyn dan sylw, pan fydd y gost yn gallu cael ei diwallu gan ddeiliad y gyllideb.
11. I benodi Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy.
12. Arfer y pŵer i benodi Swyddogion Priodol/Amgen Priodol ar gyfer materion meddygol o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 a Deddf Cymorth Gwladol (Diwygiad) 1951.

Gofal Cymdeithasol i Blant

13. Cyflawniad gweithredol a/neu ddiogelu gwasanaethau gofal cymdeithasol personol i blant a phobl ifanc gan y Cyngor, gan gynnwys:
 - trefniadau cyswllt ac atgyfeirio priodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac asiantaethau eraill
 - gwasanaethau cymorth i deuluoedd i "blant mewn angen"
 - gwasanaethau amddiffyn plant (diogelu)
 - gofal cartref i blant a phobl ifanc sy'n anabl
 - gwasanaethau llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan gynnwys maethu a gofal preswyl
 - yr ystod lawn o wasanaethau sydd eu hangen o asiantaeth fabwysiadu
 - gwasanaethau cynllunio, comisiynu a chontractio a rheoli perfformiad
 - cynllunio strategol ar y cyd ag asiantaethau partner
 - rheoli cwynion a chynrychiolaeth
 - gwasanaethau cymorth (gweinyddol)

14. Yn benodol, i arfer y swyddogaethau hynny o'r Cyngor sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol personol i blant a phobl ifanc (a oedd gynt yn gyfrifoldeb yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol) o dan Adrannau priodol y Deddfau canlynol fel y'u diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd:
 - Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958
 - Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969
 - Deddf Plant 1989
 - Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000
 - Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
 - Deddf Plant 2004
 - Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
 - Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986
 - Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
 - Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990
 - Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991
 - Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
 - Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
 - Deddf Safonau Gofal 2000
 - Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

15. Gweinyddu'r holl daliadau a godir mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys hepgor taliadau.

16. Darparu cymorth ariannol o dan adrannau 17 a 24 o Ddeddf Plant 1989 a Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000.

17. Mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, i gychwyn achos mewn Llys neu Dribiwnlys arall o dan y Deddfau canlynol fel y'i diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd:

- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Plant 1989 Adranau 25, 31, 34, 39, 43, 44, 45, 48(9), 50, 70, 94, 100, 102 ac Atodlen 2 Paragraff 19 ac Atodlen 3 Paragraff 6(3).

Unrhyw swyddogaeth arall y Cyngor mewn perthynas â darparu gwasanaethau cymdeithasol personol, sy'n cynnwys cais i Lys neu Dribiwnlys arall gan gynnwys erlyn troseddau, neu sy'n gofyn am weithredu unrhyw ddogfen sy'n weithredol yn gyfreithiol.

18. I ymateb yn y cam ffurfiol ar ran yr Awdurdod ynghylch cwynion sy'n cael eu trin o dan achosion a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant 1989
19. Cytuno ar lety plant o dan Ddeddf Plant 1989.
20. I roi'r caniatâd angenrheidiol i faterion priodol sy'n ymwneud â phlant sy'n destun Gorchmynion Gofal i'r Awdurdod, gan gynnwys rhoi caniatâd ar gyfer triniaeth feddygol a chael pasportau ar gyfer plant sy'n destun Gorchmynion Gofal.
21. I benderfynu ar argymhellion y Paneli Gofal Maeth a Sefydlogrwydd.
22. I ymateb ar ran yr Awdurdod yn ystod y cam apêl yn dilyn adolygiadau a chwynion annibynnol o dan y gweithdrefnau a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant 1989
23. I wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol neu fel arall ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, efallai ddim yn cael mynediad ati oni bai bod trefniadau o'r fath wedi cael eu gwneud.